# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 25 Gorffennaf 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, D. Jones, J.K. Howell, J.D. James, H.I. Jones and B.D.J. Phillips

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio)
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
**Hefyd yn bresennol:**
Mr G. Morgan, Cynlluniwr Trafnidiaeth gyda Atkins Framework

**Siambr, - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. 10.00 yb - 11.30 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A.C. Jones, J. Lewis, K. Madge, G.B. Thomas a J.E. Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/38833** | **Variation of conditions 2 and 13 of E/33695 at Godre Garreg, Llangadog, SA19 9DA;** |
| **E/38956** | **2.8 metre high fence to left, rear and right boundary at 2 Parc Y Llan, Llandybie, Ammanford, SA18 3HY** |

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**4.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn adroddiad/atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/37922** | **Cynllun ffordd ynghyd â chadw deunydd mewnlenwi anadweithiol i godi lefelau'r safle er mwyn hwyluso draenio ar y safle ar gyfer datblygiad preswyl yn y** |

| | |
|---|---|
| | **dyfodol ar dir y tu ôl i Y Garreg Llwyd, Heol Ebenezer, Llanedi, Llanelli;** |
| **S/38899** | **Estyniad unllawr ym mlaen yr adeilad fel rhan o gais am grant anabledd yn 8 Penybryn, Llanelli, SA14 8PS;** |

**4.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio ymweld â'r safleoedd:-**

| | |
|---|---|
| **S/38535** | **Helaethu'r safle teithwyr S/34755 [a gymeradwywyd ar 20.03.2018] er mwyn caniatau trydedd lain ar gyfer aelod o'r teulu, yn ogystal â newidiadau i'r cynllun tirweddu a chaniatau i'r safle gael caniatâd parhaol ar dir yn Hillside View, yr Hendy, Llannon, Llanelli, SA14 8JX;**<br><br>**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle o ystyried y pryderon yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth i amodau sydd ynghlwm ag unrhyw ganiatâd blaenorol.<br><br>Yn unol â phrotocol y Pwyllgor Cynllunio roedd y gwrthwynebwyr oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch yr eitem hon wedi dewis cyflwyno eu sylwadau yn y cyfarfod ar ôl yr ymweliad â'r safle. |
| **S/38787** | **Adeiladu dau dŷ deulawr ar wahân, safle'r hen glwb bowlio a chymdeithasol, 38 Heol Fair, Cydweli, SA17 4UD;**<br><br>**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle yng nghyd-destun pryderon amwynder a phreifatrwydd. |
| **S/38916** | **Estyniad unllawr ar ochr yr eiddo, sy'n cynnwys ffenestri yn y to yn lle'r tŷ allan presennol cysylltiedig, decin wedi'i godi a tho gwastad yn Nhre Neddyn, Pontarddulais, Abertawe, SA4 0FP.**<br><br>**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle yng nghyd-destun pryderon preifatrwydd |

## 5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **W/37120** | **Datblygu safle drwy adeiladu bwyty annibynnol a siop goffi annibynnol, ill dau â chyfleusterau gyrru drwyddo cysylltiedig. Gosod ffordd fynediad, maes parcio cysylltiedig, patio, offer echdynnu a gwaith gysylltiedig ehangach i'r safle ar dir wrth gylchfan Sanclêr, Hen Heol Dinbych-y-pysgod, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin, SA33 4JW** |

| | |
|---|---|
| | Yn unol â phrotocol y Pwyllgor Cynllunio roedd y gwrthwynebwyr oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch yr eitem hon wedi dewis cyflwyno eu sylwadau yn y cyfarfod ar ôl yr ymweliad â'r safle.<br><br>**RHESWM**: Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y mynediad i'r safle. |

**5.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn adroddiad/atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/38412** | **Newid defnydd o storfa amaethyddol i breswylfa 4 ystafell wely anghenion lleol gan gynnwys estyniad yng nghefn yr eiddo, yn dilyn cais cynllunio W/13476 yn Cystanog, Capel Dewi, Caerfyrddin, SA32 8AY;** |

**5.3 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol ar gais y Pennaeth Cynllunio:-**

| | |
|---|---|
| **W/38722** | **Cadw gwaith ar Adeilad Rhestredig nas cyflawnwyd yn unol â Chaniatâd Adeilad Rhestredig cyfeirnod W/08409 yn Yr Hen Dy Fferm, Penrallt, Login, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0TL.** |

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]